WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o ddatblygu ystod o opsiynau i wella cludiant gwledig – **Cyngor Sir Mynwy**


Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1199A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Sir Mynwy fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle y bo'n briodol, yr archwilydd penodedig yw'r trydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Dave Wilson, Allison Rees, Lisa McCarthy, a'r rheolwr rhaglen Non Jenkins dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu'r cam i 'ddatblygu ystod o opsiynau i wella cludiant gwledig' ond mae cyfleoedd i wreiddio'r pum ffordd o weithio ymhellach.


Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl

Rhan Un: Canfyddiadau'r Archwiliad 6

Mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu'r cam i 'ddatblygu ystod o opsiynau i wella cludiant gwledig' ond mae cyfleoedd i wreiddio'r pum ffordd o weithio ymhellach 6

- Mae'r Cyngor ar gam cynnar o ran deall anghenion a datrysiadau hirdymor 6
- Mae'r Cyngor wedi adnabod rhai o'r problemau a achosir gan y diffyg cludiant gwledig ond nid yw wedi adnabod datrysiadau posibl eto 8
- Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddatrysiadau integredig ond nid yw cludiant gwledig yn cael ei gydnabod yn dda yng nghynlluniau'r Cyngor a phartneriaid 9
- Mae'r Cyngor wedi dechrau cydweithio i gynllunio a phwyso a mesur rhai datrysiadau a byddai o fudd iddo ymgysylltu'n fwy â phartneriaid i adnabod achosion sylfaenol a datrysiadau cynaliadwy ychwanegol 10
- Er bod enghreifftiau cadarnhaol o gynnwys rhanddeiliaid, gallai'r Cyngor gael budd o gynnwys y cyhoedd ar adeg gynharach a llunio asesiadau cynhwysfawr o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer yr holl benderfyniadau polisi ynghylch newidiadau pwysig i wasanaethau 11

Rhan Dau: Ymateb y Cyngor 13

Atodiadau

Atodiad 1: Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio 16

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Pam y cynhalion ni'r Archwiliad

1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) mae'n ofynnol yn statudol i Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) archwilio cyrff cyhoeddus i asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

a pennu eu hamcanion llesiant; a

b cymryd camau i'w cyflawni.

Mae'r Ddeddf yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel gweithredu mewn modd: '…sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'

2 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu adroddiad ar ei archwiliadau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru o leiaf flwyddyn cyn bob un o etholiadau'r Cynulliad. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyntaf o'i fath erbyn 2020, cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2021.

3 Yn ystod 2018-19 mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliadau ar draws y 44 o gyrff a gwmpesir gan y Ddeddf i oleuo'i adroddiad ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol.

4 Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad, **Myfyrio ar Flwyddyn Un - Sut mae cyrff cyhoeddus wedi ymateb i ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**). Daeth i'r casgliad bod cyrff cyhoeddus yn cefnogi egwyddorion y Ddeddf ac yn cymryd camau i newid y ffordd y maent yn gweithio.

5 Wrth ddatblygu ein dull o gynnal yr archwiliadau yn ystod 2018-19 fe wnaethom ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid gan gynnwys trwy ein gwaith peilot yn ystod 2017-18. Fe wnaethom hefyd gydweithio'n agos gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

6 Gan bod y gwaith rhagarweiniol ym mlwyddyn un wedi cynnwys ystyried sut yr oedd cyrff cyhoeddus wedi pennu eu hamcanion llesiant, prif ffocws y gwaith hwn yw'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant.

7 Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn seiliedig ar waith maes a wnaethom yn ystod y cyfnod rhwng mis Tachwedd 2018 a mis Mawrth 2019.

### Yr hyn y gwnaethom ei archwilio

8 Fe archwilion ni i ba raddau y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu ystod o opsiynau i wella cludiant gwledig.

9 Er mwyn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y 'ffyrdd o weithio' canlynol:

Arddangosyn 1: y 'pum ffordd o weithio'

Mae'r tabl isod yn nodi'r 'pum ffordd o weithio' a ddiffinnir yn nogfen 'Hanfodion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol[1]' Llywodraeth Cymru.

| Y Pum Ffordd o Weithio |
| --- |
| **Hirdymor**<br>Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd. |
| **Atal**<br>Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |
| **Cydweithio**<br>Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant. |
| **Cynnwys**<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu. |

10 Canfu ein harchwiliad fel a ganlyn: **Mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu'r cam i 'ddatblygu ystod o opsiynau i wella cludiant gwledig' ond mae cyfleoedd i wreiddio'r pum ffordd o weithio ymhellach**.

[1] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion, Llywodraeth Cymru (2015)

# Adroddiad manwl

## Rhan Un – canfyddiadau'r archwiliad

## Mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu'r cam i 'ddatblygu ystod o opsiynau i wella cludiant gwledig' ond mae cyfleoedd i wreiddio'r pum ffordd o weithio ymhellach

### Mae'r Cyngor ar gam cynnar o ran deall anghenion a datrysiadau hirdymor

#### Yr hyn y chwilion ni amdano

11 Fe chwilion ni am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr am anghenion cyfredol a hirdymor a'r heriau a chyfleoedd cysylltiedig;
- cynllunio dros raddfa amser briodol;
- adnoddau a ddyrennir i sicrhau manteision hirdymor; a
- monitro ac adolygu priodol.

12 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer yr 'hirdymor' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[2]

#### Yr hyn a ganfuom

13 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae'r Cyngor yn deall bod diffyg cludiant gwledig yn bryder i lawer o drigolion yn yr ardal.
- mae'r Cyngor o'r farn bod mwy o integreiddio rhwng darparwyr cludiant lleol yn rhan o ddatrysiad hirdymor.
- mae'r Cyngor wastad yn agored i ffyrdd newydd o weithio a all gael effaith hirdymor ac mae'n awyddus i archwilio'r rhain trwy, er enghraifft, y prosiect GovTech.
- mae'r 'Astudiaeth o Gludiant Gwledig' a gomisiynwyd gan y Cyngor, gan ei hariannu â chyllid o Raglen Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-

[2] Gweler Atodiad 1

2020, yn awgrymu rhestr hir o gamau gweithredu y gallai'r Cyngor eu cymryd i wella argaeledd ac ansawdd cludiant yn Sir Fynwy.

- mae'r Cyngor wedi cynnig am gyllid gan y Gymdeithas Cludiant Cymunedol i gyfuno pob dull cludiant i ddatblygu gwasanaeth hygyrch ond bu'n aflwyddiannus.
- cafodd y Cyngor grant o £3.5m gan Lywodraeth Cymru a glustnodwyd ar gyfer ei wario erbyn mis Mawrth 2019. Mae £317,000 o hwn wedi'i ddyrannu i brynu cerbydau newydd ar gyfer y gwasanaeth bysiau ar lawr gwlad. Mae gweddill y cyllid ar gyfer prosiectau teithio llesol a seilwaith cludiant. Mae cyllid ar gael i uwchraddio gorsafoedd trenau hefyd.
- cynhaliodd y Cyngor asesiad cychwynnol o oblygiadau ariannol cyflawni camau llesiant y Cyngor. Gall y Cyngor ddefnyddio'r wybodaeth hon i benderfynu ailgyfeirio adnoddau i gyflawni'r camau hyn, os oes angen.
- mae'r 'Astudiaeth o Gludiant Gwledig' a gomisiynwyd gan y Cyngor yn nodi camau gweithredu i symud tuag at ddarparu gwasanaethau integredig a chydgysylltu gwasanaethau yn y tymor hir.
- yn y tymor byr, gall y Cyngor ganolbwyntio ar gyflawni mesurau sydd yn y Cynllun Trafnidiaeth Lleol.
- Mae Cynllun Llesiant Sir Fynwy yn disgrifio llwyddiant fel: technoleg yn cael ei ddefnyddio i gysylltu darparwyr cludiant presennol sydd â chapasiti sbâr a chymell darparwyr newydd i ymuno â'r farchnad. Y mesurau datganedig yw:
  - canran y bobl sy'n fodlon ar eu gallu i gyrraedd/cael mynediad at y cyfleusterau a'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt;
  - canran y bobl sy'n unig;
  - allyriadau nwyon tŷ gwydr; a
  - lefelau llygredd nitrogen deuocsid yn yr awyr.
- mae'r Cyngor yn ceisio mynd i'r afael â chanlyniadau'r diffyg cludiant gwledig. Disgrifir y rhain yn yr asesiad llesiant ac maent yn cynnwys:
  - bod unigrwydd ymhlith pobl hŷn yn cael ei waethygu gan y pellter oddi wrth aelodau o'r teulu;
  - bod ffactorau megis tai fforddiadwy a chyfleoedd cyflogaeth yn cynyddu'r pwysau ar deuluoedd i wasgaru – mae pobl hŷn sy'n gweld eu plant unwaith y mis neu lai ddwywaith mor debygol o deimlo'n unig na'r rhai sy'n cael cyswllt dyddiol â'u plant; a
  - bod mynychder cyflogaeth sydd â thâl isel ac sy'n fregus yn cyfrannu at y risg o dlodi mewn gwaith tra bod cludiant cyhoeddus anfynych yn golygu y gall fod yn anodd i'r rhai heb gludiant preifat deithio i'r gwaith.
- mae gan y Cyngor gyfoeth o ddata ar Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is a Chanolig, gyda rhywfaint ar lefel wardiau. Mae hyn yn cynnwys amseroedd teithio cyfartalog ar gludiant cyhoeddus a phreifat i ymweld â meddygon teulu, fferyllfeydd, swyddfa'r post a gwasanaethau'r cyngor lleol.

14 Canfuom y cyfleoedd canlynol i wella:

- gallai teitl y cam fod yn gamarweiniol gan ei fod hefyd yn ceisio mynd i'r afael â chanlyniadau tebygol y diffyg cludiant gwledig;
- nid yw'r Cyngor wedi egluro'r mesurau llwyddiant tymor byr, canolig a hir yn llawn ar yr adeg y cymeradwyodd y cam hwn, er ei fod wedi cynnwys y rhain yn ddiweddarach mewn cynnig am gyllid;
- datblygu mesurau llwyddiant wrth i ddatrysiadau ddod i'r amlwg;
- mae'r Cynllun Gweithredu Trafnidiaeth yn cynnwys camau gweithredu byrdymor yn unig; ac
- mae'r Cyngor wedi asesu y gall fod angen adnoddau ychwanegol ond nid yw wedi nodi o ble y daw'r adnoddau hyn.

## Mae'r Cyngor wedi adnabod rhai o'r problemau a achosir gan y diffyg cludiant gwledig ond nid yw wedi adnabod datrysiadau posibl eto

### Yr hyn y chwilion ni amdano

15 Fe chwilion ni am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr am natur y broblem a'r math o broblem y gallai'r cam helpu i'w hatal rhag digwydd neu fynd yn waeth;
- adnoddau a ddyrennir i sicrhau y bydd manteision ataliol yn cael eu cyflawni; a
- gwaith i fonitro ac adolygu pa mor effeithiol yw'r cam o ran atal problemau rhag digwydd neu fynd yn waeth.

16 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'atal' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[3]

### Yr hyn a ganfuom

17 Canfuom y cryfder canlynol:

- Mae'r 'Astudiaeth o Gludiant Gwledig' ac ymgysylltu lleol wedi adnabod rhai heriau a chyfleoedd o ran deall problemau a achosir gan y diffyg cludiant gwledig a mynd i'r afael â hwy.

18 Canfuom y cyfleoedd canlynol i wella:

- nid yw'r Cyngor wedi ymgysylltu'n llawn eto â'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan y diffyg cludiant gwledig i helpu i adnabod mesurau ataliol i leihau'r effaith negyddol i'r eithaf;

[3] Gweler Atodiad 1

- nid yw'r Cyngor wedi adnabod ei anghenion o ran gwybodaeth i helpu i gynllunio a chyflawni'r Cam hwn na threfniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng partneriaid;
- nid yw'r Cyngor wedi mynd ati eto i adolygu pa mor effeithiol y mae adnoddau sydd ar gael ar gyfer cludiant gwledig yn cael eu defnyddio a sut y gallai'r rhain gael eu defnyddio'n wahanol, er enghraifft cymorthdaliadau a chonsesiynau; ac
- mae gwaith ar y gweill i ystyried sut y gellir atal effeithiau'r diffyg cludiant gwledig – mae'r gwaith hwn yn rhan o gamau ar wahân ac nid yw wedi cael ei ddwyn ynghyd eto.

## Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddatrysiadau integredig ond nid yw cludiant gwledig yn cael ei gydnabod yn dda yng nghynlluniau'r Cyngor a phartneriaid

### Yr hyn y chwilion ni amdano

19 Fe chwilion ni am dystiolaeth o'r canlynol:

- sut y gallai'r cam hwn gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant y cyngor a'i flaenoriaethau ehangach; a
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar lesiant cyrff cyhoeddus eraill.

20 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'integreiddio' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[4]

### Yr hyn a ganfuom

21 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae 'datblygu technolegau newydd ar gyfer gwella cludiant gwledig' yn rhan o Gynllun Llesiant Sir Fynwy gyda chysylltiadau â'r nodau llesiant cenedlaethol canlynol: Cymru Lewyrchus, Cymru sy'n Fwy Cyfartal, Cymunedau Cydlynus a Chymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang;
- y Cyngor yw'r corff arweiniol yn y sector cyhoeddus (o fewn Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus - BGC Sir Fynwy) ar gyfer gwella cludiant gwledig gyda chysylltiadau â'r amcanion canlynol yn y Cynllun Llesiant:
  – rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl ifanc;
  – ymateb i heriau sy'n gysylltiedig â newidiadau demograffig;
  – amddiffyn a gwella cydnerthedd yr amgylchedd naturiol gan liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd;

[4] Gweler Atodiad 1

- mae cludiant gwledig yn integreiddio â chamau eraill yng nghynllun llesiant Sir Fynwy:
  - Dinasyddiaeth weithgar
  - Dylunio a chynllunio
  - Ynni adnewyddadwy
  - Teithio llesol a chynaliadwy
  - Y Fargen Ddinesig
- mae'r Cyngor wedi cynnal trafodaeth betrus ynghylch cludiant gwledig gyda'r Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol a Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd;
- mae'r Cyngor bellach yn gweithio'n fwy ffurfiol gyda Trafnidiaeth Cymru ac mae'n un o dair ardal beilot ar gyfer datblygu cludiant gwledig, ac mae Trafnidiaeth Cymru yn cyfrannu data i oleuo'r prosiect GovTech; ac
- mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen datrysiad integredig.

22 Canfuom y meysydd canlynol i'w gwella:

- ni chyfeirir at y Cam hwn mewn cynlluniau busnes gan y Cyngor a allai fod yn berthnasol megis y cynllun menter a chymunedau neu gynlluniau busnes y gwasanaethau cymdeithasol.
- ni chyfeirir at y Cam hwn mewn cynlluniau gan bartneriaid megis cynlluniau Ambiwlansys y Bwrdd Iechyd neu'r GIG. Nid yw'r Cyngor yn gwybod a yw partneriaid wedi meintioli effaith diffyg cludiant gwledig ar eu gwasanaethau.

## Mae'r Cyngor wedi dechrau cydweithio i gynllunio a phwyso a mesur rhai datrysiadau a byddai o fudd iddo ymgysylltu'n fwy â phartneriaid i adnabod achosion sylfaenol a datrysiadau cynaliadwy ychwanegol

### Yr hyn y chwilion ni amdano

23 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Cyngor:

- wedi ystyried sut y gallai weithio gydag eraill i gyflawni'r cam (i gyflawni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion llesiant);
- yn cydweithio'n effeithiol i gyflawni'r cam; ac
- yn monitro ac yn adolygu a yw cydweithio'n ei helpu ef neu'n helpu ei randdeiliaid i gyflawni amcanion llesiant.

24 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'cydweithio' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[5]

[5] Gweler Atodiad 1

### Yr hyn a ganfuom

25 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae swyddogion o'r Cyngor yn aelodau o is-grŵp llesiant yn Trafnidiaeth Cymru. Mae cyfle i swyddogion amlygu materion cludiant gwledig Sir Fynwy.
- cydweithio cadarnhaol yn y camau cynllunio gyda'r darparwr ymchwil, menter Magwyr a GovTech.
- mae'r Cyngor yn cydweithio gyda phum partner fel rhan o'r prosiect GovTech.

26 Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella:

- nid yw'r Cyngor yn glir ynghylch parodrwydd partneriaid i gydweithio gyda'r Cyngor i gyflawni'r cam hwn, er y byddai'n amlwg yn talu i rai partneriaid wneud hynny;
- mae Grŵp Trafnidiaeth Strategol y Cyngor yn cynnwys Swyddogion ac Aelodau ac mae ganddo'r potensial i fod yn effeithiol o ran helpu i gyflawni'r Cam hwn, ond nid yw'r grŵp hwn wedi chwarae rhan eto; ac
- mae'r Cam cludiant gwledig wedi cael ei drafod yn y BGC ond ar y cam hwn nid yw partneriaid ar y BGC wedi dechrau cydweithio mewn modd ystyrlon gyda'r Cyngor i gyflawni'r Cam hwn eto.

## Er bod enghreifftiau cadarnhaol o gynnwys rhanddeiliaid, gallai'r Cyngor gael budd o gynnwys y cyhoedd ar adeg gynharach a llunio asesiadau cynhwysfawr o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer yr holl benderfyniadau polisi ynghylch newidiadau pwysig i wasanaethau

### Yr hyn y chwilion ni amdano

27 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Cyngor:

- wedi adnabod pwy y mae angen iddo'u cynnwys wrth ddylunio a chyflawni'r cam;
- wedi mynd ati mewn ffordd effeithiol i gynnwys rhanddeiliaid wrth ddylunio a chyflawni'r cam;
- wedi defnyddio canlyniadau cynnwys pobl i ddylanwadu ar ddatblygu a chyflawni'r cam; ac
- wedi ceisio dysgu gwersi a gwella'i ddull o gynnwys.

28 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'cynnwys' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[6]

[6] Gweler Atodiad 1

## Yr hyn a ganfuom

29 Canfuom y cryfderau canlynol:

- cafodd y cam hwn ei adnabod o ganlyniad i ymgysylltu â thrigolion lleol a fwydodd i mewn i'r asesiad llesiant. Er enghraifft:
  - cafodd cludiant cyhoeddus ei godi fel mater yn y gweithdy Mynediad i Bawb a gynhaliwyd ar gyfer pobl hŷn a phobl ag anableddau; a hefyd
  - nododd y Fforwm Ieuenctid fod angen mynd i'r afael â chludiant cyhoeddus.
- fe wnaeth yr 'Astudiaeth o Gludiant Gwledig' a gomisiynwyd gan y Cyngor gynnwys ac ymgynghori â llawer o randdeiliaid mewn gweithdy. Roedd hanner cant a thri o gyfranogwyr yn bresennol, gan gynnwys gwasanaethau'r Cyngor, cynrychiolwyr cymunedol, gwasanaethau iechyd a gweithredwyr cludiant, gan gynnwys bysiau, tacsis a chludiant cymunedol.
- fe wnaeth ymchwil sylfaenol i wasanaethau anstatudol a gomisiynwyd gan y rhaglen LEADER fwrw golwg ar bum ardal gymunedol yn Sir Fynwy a Chasnewydd wledig.
- Mae'r 'Astudiaeth o Gludiant Gwledig' a gomisiynwyd gan y Cyngor yn cynnwys tua 30 o astudiaethau achos sy'n disgrifio sut y mae mater cludiant gwledig gwael yn cael sylw mewn ardaloedd eraill.
- mae'r Cyngor yn ymgysylltu â chynrychiolwyr MAGWYR i ddatblygu cynigion ar gyfer gorsaf sy'n cysylltu â llwybrau yn y gymuned.
- Mae'r Cyngor yn ystyried gweithio gydag Asiantaeth Ynni Hafren a Gwy – dewisodd Grysmwnt yn Sir Fynwy i balu'n ddwfn i mewn i'r gymuned honno ond nid yw wedi canlyn arni â hyn – er bod y Cyngor yn gwybod sut y maent yn mynd i'w wneud.
- roedd cydgynhyrchu datrysiadau'n un o'r meini prawf a ddefnyddiwyd i ddewis y cwmnïau y mae'r Cyngor yn gweithio gyda hwy ar y prosiect GovTech. Bydd cydgynhyrchu'n rhan o gam nesaf yr asesiadau; ac
- mae'r Cyngor wedi cwblhau asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar y cyfan ar gyfer y Cam.

30 Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella :

- mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn adnabod y bobl yr effeithir arnynt gan ddiffyg cludiant gwledig a ble maent yn byw. Y rhai nad yw'r Cyngor yn gwybod amdanynt yw'r bobl ynysig nad ydynt yn ymgysylltu â gwasanaethau. Nid yw'r Cyngor wedi penderfynu sut i gysylltu â'r bobl hyn eto.
- wrth i'r cam hwn ddatblygu bydd rhagor o gyfleoedd i gynnwys y rhai hyn yr effeithir arnynt fwyaf gan y diffyg cludiant gwledig yn y broses o ddod o hyd i ddatrysiadau – trigolion lleol a darparwyr gwasanaethau.
- dylai rhai o'r bobl yr effeithir arnynt fwyaf gan gludiant gwledig gael eu cynnwys trwy gydol y broses o roi'r datrysiad ar waith.

- mae'r Cyngor yn dweud ei fod yn gwybod pwy yw'r prif randdeiliaid ac mae wedi sefydlu cyswllt â rhai, ond mae'n ei chael yn anos ymgysylltu ag eraill am nad yw swyddogion y Cyngor yn glir pwy ddylid cysylltu â hwy yn y sefydliadau hyn i ddechrau trafodaethau.
- mae'r coleg drws nesaf i Neuadd y Sir yn hygyrch ond nid yw gwybodaeth am y myfyrwyr y mae natur wledig yn effeithio arnynt ar gael.

# Rhan Dau: Ymateb y Cyngor

31 Ar ôl cwblhau ein gwaith maes, fe gyflwynon ni ein canfyddiadau i'r Cyngor mewn gweithdy ym mis Mawrth 2019 yr oedd y Pennaeth Polisi a Llywodraethu, y Rheolwr Perfformiad, Swyddog Perfformiad, Rheolwr y Cynllun Datblygu Gwledig, Rheolwr Prosiect ar gyfer y cynnig GovTech a Swyddog Polisi Cynaliadwyedd yn bresennol ynddo. Yn y gweithdy hwn dechreuodd y Cyngor ystyried ei ymateb i'n canfyddiadau ac yn dilyn trafodaethau yn y gweithdy a myfyrio ymhellach ar ein canfyddiadau fe wnaeth y Cyngor ddatblygu'r camau gweithredu canlynol.

Arddangosyn 2: camau gweithredu'r Cyngor

| Deilliant a Ddymunir | Cam Gweithredu | FfoW Berthnasol | Pwy/Pryd | Adnoddau |
|---|---|---|---|---|
| Dealltwriaeth well o dueddiadau'r dyfodol | Defnyddio adroddiadau Tueddiadau'r Dyfodol a ddarperir trwy BGC Gwent a gweithdy wedi hynny i sicrhau bod mewnwelediad a senarios cludiant yn cael eu defnyddio i oleuo a threfnu'r modd y caiff opsiynau cludiant eu comisiynu yn y dyfodol. | Hirdymor | Pennaeth Polisi a Llywodraethu<br><br>Pwyntiau penderfynu allweddol/ Gwanwyn 2020 | Ariennir trwy Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer BGCau. |
| Atal y galw rhag codi lle y bo'n bosibl trwy adnabod achosion sylfaenol materion | Sicrhau bod prosiectau a gomisiynir yn ystyried yr achosion sylfaenol sy'n arwain at alw am gludiant ac yn mynd i'r afael â hwy. | Hirdymor<br>Ataliol | Pennaeth Polisi a Llywodraethu/ Pennaeth Menter a Datblygu Cymunedol<br><br>Gwanwyn 2020 | Nid oes angen unrhyw adnoddau ychwanegol. |

| Deilliant a Ddymunir | Cam Gweithredu | FfoW Berthnasol | Pwy/Pryd | Adnoddau |
|---|---|---|---|---|
| Mae datrysiad cludiant yn ei le sy’n diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau yn awr ac yn y dyfodol | Sicrhau bod y penderfyniad caffael ar ddiwedd GovTech Catalyst yn cael ei wneud yn seiliedig ar ddealltwriaeth am gostau hirdymor gan gynnwys manteision posibl atal. | Hirdymor<br>Ataliol | Pennaeth Polisi a Llywodraethu/ Pennaeth Menter a Datblygu Cymunedol<br><br>Gwanwyn 2020 | I’w bennu gan yr hyn a gyflwynir yn derfynol. |
| Deall anghenion y rhai nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau ar hyn o bryd yn ogystal â’r rhai sydd | Defnyddio ymchwil defnyddwyr a gyflawnwyd yng ngham 1 o’r her GovTech i ffurfio dealltwriaeth gynhwysfawr am anghenion defnyddwyr ar y lefel leol. | Atal<br>Cynnwys | Cydlynydd Dyfodol Sir Fynwy<br><br>Mai 2019 | Capasiti staff presennol gan ddefnyddio ymchwil a ariannwyd gan Wasanaeth Digidol y Llywodraeth. |
| Data’n cael ei ddefnyddio a’i rannu’n llwyddiannus rhwng gwahanol bartneriaid | Ceisio datrysiad hirdymor sy’n galluogi data a mewnwelediad gan bartneriaid lluosog mewn un lle i ddarparu gwybodaeth well am anghenion a’r cyflenwad a bylchau posibl. | Integreiddio | Pennaeth Polisi a Llywodraethu/ Pennaeth Menter a Datblygu Cymunedol<br><br>Gwanwyn 2020 | Datblygu cynllun peilot tra’n disgwyl i gyllid cam 2 gael ei ddyrannu gan Wasanaeth Digidol y Llywodraeth. |
| Mae dysgu effeithiol o gam cyntaf GovTech Catalyst yn goleuo datblygiad datrysiadau cludiant yn y dyfodol | Gweithio gyda Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth a defnyddio allbynnau o gam 1 i lunio cwmpas diwygiedig ar gyfer ymarfer tendro cam 2 gan geisio cydweithio pellach gyda darparwyr preifat. | Cynnwys<br>Cydweithio | Cydlynydd Dyfodol Sir Fynwy<br><br>Mai 2019 | Capasiti staff presennol |

| Deilliant a Ddymunir | Cam Gweithredu | FfoW Berthnasol | Pwy/Pryd | Adnoddau |
|---|---|---|---|---|
| Mae ecosystem cludiant effeithiol yn ei lle sy'n galluogi darparwyr lluosog ar draws sectorau gwahanol i gyflenwi gwasanaethau o un platfform | Llunio manyleb ar gyfer 2il gam GovTech Catalyst sy'n manylu ar y gofyniad am ddatrysiad i alluogi darparwyr lluosog i gydweithio fel rhan o un platfform neu frand. | Cydweithio | Pennaeth Polisi a Llywodraethu/ Pennaeth Menter a Datblygu Cymunedol<br><br>Gwanwyn 2020 | Capasiti staff presennol ar gyfer Cyngor Sir Mynwy.<br><br>Yn ddibynnol ar gyllid cam 2 gan Wasanaeth Digidol y Llywodraeth. |

32 Gallwn fonitro cynnydd y Cyngor o ran rhoi'r camau gweithredu hyn ar waith, ac i ba raddau y maent yn mynd i'r afael meysydd i'w gwella yr ydym wedi'u hadnabod yn yr adroddiad hwn.

# Atodiad 1

## Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio

### Arddangosyn 3: Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio

Mae'r tabl isod yn nodi 'dangosyddion cadarnhaol' ar gyfer pob un o'r pum ffordd o weithio yr ydym wedi'u hadnabod. Nid ydym wedi defnyddio'r dangosyddion fel rhestr wirio. Dylid eu hystyried yn ddangosyddion. Fe wnaethant ein helpu i ddod i gasgliadau wrth ystyried i ba raddau y mae corff yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei Amcanion Llesiant.

| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd o weithio hirdymor yn llawn?** |
|---|
| • Ceir dealltwriaeth glir am yr hyn y mae 'hirdymor' yn ei olygu yng nghyd-destun y Ddeddf.<br>• Maent wedi dylunio'r cam i gyflawni'r amcan(ion) llesiant a chyfrannu at eu gweledigaeth hirdymor.<br>• Maent wedi dylunio'r cam i gyflawni manteision yn y tymor byr neu ganolig, y ceir cydbwysedd rhyngddynt a'r effaith dros yr hirdymor (yng nghyd-destun y prosiect).<br>• Maent wedi dylunio'r cam yn seiliedig ar ddealltwriaeth soffistigedig am yr angen a phwysau yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol.<br>• O ganlyniad, ceir dealltwriaeth gynhwysfawr am risgiau a chyfleoedd yn awr ac yn y dyfodol.<br>• Mae adnoddau wedi cael eu dyrannu i sicrhau bod manteision hirdymor yn ogystal â manteision byrdymor yn cael eu cyflawni.<br>• Ceir ffocws ar gyflawni deilliannau, gyda cherrig milltir/camau cynnydd wedi'u nodi lle bydd deilliannau'n cael eu cyflawni dros yr hirdymor.<br>• Maent yn agored i ffyrdd newydd o wneud pethau a allai helpu i ddwyn manteision dros yr hirdymor.<br>• Maent yn gwerthfawrogi gwybodaeth ac yn mynd ar drywydd dulliau seiliedig ar dystiolaeth. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd o weithio ataliol yn llawn?** |
| • Mae'r corff yn ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel bod modd mynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau sy'n pontio'r cenedlaethau.<br>• Mae'r corff yn ystyried heriau o safbwynt systemau cyfan, gan gydnabod a gwerthfawrogi'r manteision hirdymor y gallant eu dwyn i bobl a lleoedd.<br>• Mae'r corff yn dyrannu adnoddau i gamau ataliol sy'n debygol o gyfrannu at ddeilliannau gwell a defnydd gwell o adnoddau dros y tymor hwy, hyd yn oed lle gallai hyn gyfyngu ar y gallu i ddiwallu rhai anghenion byrdymor.<br>• Ceir trefniadau penderfynu ac atebolrwydd sy'n cydnabod gwerth camau ataliol ac yn derbyn gostyngiadau byrdymor mewn perfformiad ac adnoddau wrth fynd ar drywydd gwelliannau a ragwelir mewn deilliannau ac yn y defnydd o adnoddau. |

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn defnyddio dull 'integredig'? |
| --- |
| • Mae unigolion ar bob lefel yn deall eu cyfraniad at wireddu'r weledigaeth a'r amcanion llesiant.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn deall yr hyn y mae gwahanol rannau o'r sefydliad yn ei wneud ac yn mynd ati mewn modd rhagweithiol i geisio cyfleoedd i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Caiff hyn ei efelychu yn eu gwaith gyda chyrff cyhoeddus eraill.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod y dibyniaethau traws-sefydliadol sy'n rhan o wireddu'r uchelgais a chyflawni'r amcanion.<br>• Ceir diwylliant agored lle mae gwybodaeth yn cael ei rhannu.<br>• Ceir dealltwriaeth sydd wedi datblygu'n dda am y modd y mae'r amcanion llesiant a'r camau i'w cyflawni'n effeithio ar gyrff eraill yn y sector cyhoeddus.<br>• Mae unigolion yn gweithio mewn modd rhagweithiol ar draws ffiniau sefydliadol i wneud y cyfraniad mwyaf posibl ar draws y nodau llesiant a lleihau effeithiau negyddol i'r eithaf.<br>• Mae trefniadau llywodraethu, strwythurau a phrosesau'n cefnogi hyn, ac felly hefyd ymddygiadau. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cydweithio'n effeithiol?** |
| • Mae'r corff yn canolbwyntio ar le, cymuned a deilliannau yn hytrach na ffiniau sefydliadol.<br>• Mae gan y corff ddealltwriaeth dda am amcanion partneriaid a'u cyfrifoldebau, sy'n helpu i lywio gweithgarwch cydweithredol.<br>• Mae gan y corff berthnasoedd cadarnhaol ac aeddfed â rhanddeiliaid, lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Mae'r corff yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau y gall yr holl bartneriaid eu gwneud.<br>• Mae'r corff yn ceisio canfod prosesau cyffredin a ffyrdd cyffredin o weithio, lle y bo'n briodol. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol?** |
| • Deall pwy y mae angen eu cynnwys a pham.<br>• Myfyrio pa mor dda y mae'r anghenion a'r heriau a wynebir gan y bobl hynny'n cael eu deall ar hyn o bryd.<br>• Gweithio mewn modd cydgynhyrchiol, gan weithio gyda rhanddeiliaid i ddylunio a chyflawni.<br>• Ystyried barn rhanddeiliaid fel ffynhonnell wybodaeth hanfodol a fydd yn helpu i gyflawni deilliannau gwell.<br>• Sicrhau bod yr amrywiaeth lawn o randdeiliaid yn cael eu cynrychioli a'u bod yn gallu cymryd rhan.<br>• Bod â pherthnasoedd aeddfed, seiliedig ar ymddiriedaeth â'i randdeiliaid lle ceir deialog barhaus a lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad.<br>• Ceisio adborth gan randdeiliaid allweddol a ddefnyddir i helpu i ddysgu a gwella. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru